

CIC

Cynhelir cyfarfod CIC yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch yn Capel Coch nos Wener yr wythnos hon, Chwefror 2.

Ar y We



Gwefan yr Ofalaeth

Cofiwch fod gan yr Ofalaeth wefan sy'n cynnwys gwybodaeth am yr eglwysi a'u gwaith. Mae copi o *Gronyn* yn cael ei osod ar y wefan bob nos Sul, ac felly os na chawsoch gopi yn y capel am unrhyw reswm mae modd ei ddarllen ar y wefan. Yn syml iawn, chwiliwch am gronyn.org

Bocs bwyd

Diolch yn fawr iawn i bawb sy'n cyfrannu at y Bocs Bwyd yn Capel Coch er budd Banc Bwyd Caernarfon.

Mae'r cyfan yn cael ei werthfawrogi gan y bobl sy'n trefnu'r Banc Bwyd er mwyn helpu pobl sydd mewn trafferthion yng Nghaernarfon a'r ardal. Gellir rhoi bwydydd yn y bocs unrhyw adeg.

Y mis nesaf - Deiniolen

Ionawr 28

5.00 p.m. - Y Parchg Geraint Roberts

Chwefror 4

3.30 p.m. - Y Gweinidog

Chwefror 11

5.00 p.m. - Y Parchg Dafydd Coetmor Williams

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Chwefror 4: Gwasanaethir am 3.30 o'r gloch gan y Gweinidog.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Nos Wener, Chwefror 2: CIC am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Chwefror 4: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan y Parchg Harri Parri, Caernarfon. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

CARMEL

Dydd Llun, Ionawr 29: Y Te Bach am 2.30 o'r gloch.

Nos Wener, Chwefror 2: Dwylo Pysur am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Chwefror 4: Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch. Bydd y Gweinidog yn arwain Oedfa Gymundeb am 5.00 o'r gloch.

BETHLEHEM

Dydd Sul, Chwefror 4: Bydd yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch ac oedfa yng ngofal yr aelodau am 2.00 o'r gloch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Chwefror 4: Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Y mis nesaf - Llanberis

Ionawr 28

10.30 a.m. - Oedfa Deulu

Chwefror 4

10.00 a.m. - Y Parchg Harri Parri

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Dim Oedfa

Chwefror 11

10.00 a.m. - Y Gweinidog (Oedfa Gymundeb)

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Y Gweinidog

Gofalaeth Fro'r
Llechen Las

Rhif 757
28 Ionawr, 2018
Gronyn

Pob math o bethau



Torri gwallt, arth wen, 'makeover' a Dr Who. Beth sy'n gyffredin i'r pedwar peth hyn? Fawr o ddim (oni bai fod Dr Who yn torri ei gwallt cyn mynd i roi 'makeover' i arth wen, neu bod arth wen yn cael 'makeover' cyn torri gwallt Dr Who!)

Na, does dim byd amlwg i'w cysylltu â'i gilydd. Ond os ewch i wefan beibl.net mi welwch fod pob un yn fan cychwyn i sgysiaau (neu bodlediadau) am y Ffydd Gristnogol. Os na chlywsoch y sgysiaau, mae'n werth mynd i'r wefan i chwilio amdanynt. Pum munud, fwy neu lai, yw hyd pob sgwrs, ac mae'n rhwydd iawn gwranddo arnynt. Mae yno bymtheg erbyn hyn, ond mae'n debyg yr ychwanegir rhagor atynt yn y man.

Ac os ewch i'r wefan, mi welwch ar unwaith mai rhan fechan yn unig o'r cyfoeth o ddeunydd a geir yno yw'r podlediadau. Mae yno bob math o ddeunydd gwerthfawr, yn cynnwys ffilmiau amrywiol a thystiolaethau gan Gristnogion am eu ffydd a'u hoff adnodau, a storïau Beiblaidd yn cael eu hadrodd trwy gyfrwng cartwn ac ati. Cadw ddarllen yno hefyd bob math o ddeunydd sy'n ein helpu i ddeall y Beibl a'i neges, er mwyn i Air Duw ddod yn ffynhonnell cysur a nerth wrth i ni fyw'r bywyd Cristnogol o ddydd i ddydd.

Mae'n ddigon hawdd dod o hyd i'r wefan trwy fynd i beibl.net ar eich cyfrifiadur neu dabled electroneg.

Mae dros ddwy flynedd erbyn hyn ers cyhoeddi beibl.net mewn llyfr. Ond er mor braf yw medru darllen y cyfieithiad newydd hwn mewn llyfr, mae'n werth cofio bod gwaith beibl.net yn parhau trwy'r cyfan a welir ar y wefan. Mor hawdd yw anghofio am yr holl ddeunydd a ddarparwyd ar ein cyfer. Rwyf fi mor dueddol â neb o wneud hynny. Mi fyddwn wedi arbed gwaith i mi fy hun fwy nag unwaith pe byddwn wedi cofio am y deunydd hwn wrth baratoi ar gyfer ambell Oedfa Deulu er enghraifft. Ond gwaeth na hynny, rwyf ar fy ngholled o beidio â throi yn fwy aml i ddarllen a gwranddo ar bethau a all fy helpu a'm calonogi yn y bywyd Cristnogol.

Mor werthfawr hefyd yw cofio nad beibl.net yw'r unig gymorth sydd ar gael. Yma yng Nghymru, mae gan sawl eglwys a gofalaeth wefan sy'n ein galluogi i wrando ar bregethau neu ddarllen negeseuon. Mae amrywiaeth o lyfrau a mwy nag un cylchgrawn Cristnogol Cymraeg yn dal i gael eu cyhoeddi ar gyfer plant ac oedolion. Mae'r cyfan wedi ei ddarparu er mwyn cyflwyno Efyngyl Iesu Grist a lledaenu cenhadaeth yr eglwysi. Diolchwn am bopeth sy'n ein helpu i gymhysu neges y Beibl i'n bywydau bob dydd. Mae gwefan beibl.net yn sicr yn un o'r adnoddau mwyaf gwerthfawr sydd gan Gristnogion Cymraeg o bob oed. A diolch amdani.

[Wedi crybwyll 'makeover', aed ati i roi peth felly i *Gronyn* heddiw!]

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Cynhelir Oedfa Deulu yn Capel Coch am 10.30 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Geraint Roberts, Porthaethwy. Dymunwn yn dda iddo wedi iddo ymddeol yn ddiweddar o'i weinidogaeth ym Mhorthaethwy.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch. Bydd oedfa Fedydd am 2.00 o'r gloch a'r oedfa am 5.00 o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog.

Ysgol Sul Nhalybont am 10.00 o'r gloch a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Dafydd Coetmor Williams.

Nid oes oedfa yn Nant Peris heddiw.

Cofion

Dymunwn wellhad buan i'n haelodau sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd:

Balm o Salm



'Y mae'r sawl sy'n byw **BYW Y BEIBL** yn lloches y Goruchaf, ac yn aros yng nghysgod yr Hollalluog, yn dweud wrth yr ARGLWYDD, "Fy noddfa a'm caer, fy Nuw, yr un yr ymddiriedaf ynddo." Oherwydd bydd ef yn dy waredu o fagl heliwr, ac oddi wrth bla difaol; bydd yn cysgodi drosot â'i esgyll, a chei nodded dan ei adenydd; bydd ei wirionedd yn darian a bweled. Ni fyddi'n ofni rhag dychryn y nos, na rhag saeth yn hedfan yn y dydd, rhag pla sy'n tramwyo yn y tywyllwch, na rhag dinistr sy'n difetha ganol dydd' (Salm 91:1-6).

Oedfa Fedydd

Cynhelir Oedfa Fedydd yng nghapel Carmel, Llanllechid am 2.00 o'r gloch heddiw. Estynnwn groeso cynnes i deuluoedd Dion ac Agnieszka a fydd yn cyflwyno eu merch Michalina i'w bedyddio. Estynnwn groeso arbenig i deulu Agnieszka o Wlad Pwyl.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â theulu Mr John Morris, Rhiwen, Deiniolen a fu farw yn Ysbyty Gwynedd ddydd Llun diwethaf, Ionawr 22, yn 104 mlwydd oed. Ni fydd neb yn synnu o ddeall mai ef oedd aelod hynaf eglwysi Cefnywaun. Bydd y gwasanaeth angladd yn yr Amlosgfa ym Mangor am 11.00 o'r gloch ddydd Iau, Chwefror 1.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Miss Doreen Ward a Mrs Thelma Griffith, 53 Maes Padarn, Llanberis yn y brofedigaeth o golli eu chwaer yng nghyfraith Mrs June Ward, 4 Maes Padarn yr wythnos ddiwethaf.

Cyfarfod Chwarter

Bydd Annibynwyr Gogledd Arfon yn cynnal eu Cyfarfod Chwarter nesaf yng nghapel Tabernacl, Llanrwst nos Fercher (Ionawr 31) am 7.00 o'r gloch.

Yn ystod rhan gyntaf y cyfarfod bydd Mr Robert Morris, Penygroes yn traddodi ei ddarlith, 'Daucanmlwyddiant Diwygiad Beddgelert, 1817'. Roedd y Diwygiad hwn, a gychwynnodd yn Nanhoron, Llŷn cyn cyrraedd Beddgelert, yn un nerthol iawn, a bydd yn dda i ni glywed yr hanes am ei ddechreuadau a'i ddylanwad yn ardal Beddgelert ac mewn cylch ehangach.

Bydd cyfarfod arferol y Cyfundeb yn dilyn y ddarlith. Ond os nad ydych eisiau aros am y Cyfarfod Chwarter cyfan, bydd croeso i chi ddod erbyn 7.00 o'r gloch ar gyfer y ddarlith a diflannu wedyn os mynnwch.

Angladd

Cynhaliwyd angladd Mr Geraint Jones, 31 Ffordd Tan y Bwlch, Llanllechid yng nghapel Carmel, Llanllechid ddydd Llun diwethaf, Ionawr 22 dan arweiniad y Gweinidog. Cymerwyd rhan hefyd gan y Parchg Dafydd Coetmor Williams, a Mrs Helen Williams oedd yr organydd. Cafwyd gair o deyrnged gan Dafydd cyn iddo ddarllen o'r Beibl, a diolch iddo am ei gyfraniad i'r oedfa. Cafwyd gwasanaeth byr wedyn ar lan y bedd ym Mynwent Coetmor.

Bu farw Geraint yn Ysbyty Gwynedd ddydd Sul, Ionawr 14 yn 58 mlwydd oed wedi gwaeledd byr ond blin a barodd dros ddeg wythnos. Gydol y cyfnod hwnnw cafodd ofal arbennig yn Ysbyty Gwynedd, a bydd y rhoddion er cof amdano'n cael eu rhoi i Ward Cybi yn yr Ysbyty.

Cydymdeimlwn â'i briod, Alison a'u merch a'u mab, Danielle a Michael; â'i wŷr a'i wyresau Owen, Hannah, Erin a Catrin; ac â'i fam, Mrs Betty Jones a'i frodyr Gareth, David, Trevor ac Alwyn, a gweddill y teulu yn eu colled.

Yr oedd y capel yn llawn, yn arwydd o gydymdeimlad ardal gyfan â'r teulu. Trwy ei waith yn Chwael y Penrhyn ac fel trydanwr ynghyd â'i waith yn nhafarn

y Royal Oak ym mhentref Rachub roedd gan Geraint gylch eang o ffrinidau, a bydd colled fawr ar ei ôl yn eu plith.

Dydd Gweddi Byd Eang y Chwiorydd

Bydd aelodau'r eglwysi yn Neiniolen yn cynnal Oedfa Dydd Gweddi Byd Eang y Chwiorydd yn Ebeneser am 6.00 o'r gloch, nos Wener, Mawrth 2.

Cymdeithas Undebol

Cynhelir cyfarfod nesaf y Gymdeithas Undebol yn Llanberis am 7.00 o'r gloch nos Fawrth, Chwefror 6.

Noson Gwis fydd hon, ac estynnir croeso cynnes atom.

Cwrs Ieuenctid Blwyddyn 7-11

Bydd y Cwrs Ieuenctid nesaf yng Ngholeg y Bala ar ddiwedd gwyliau hanner tymor yr ysgolion, o nos Wener hyd ddydd Sul, Chwefror 16-18.

Mae amryw o ieuenctid Llanberis yn awyddus i fynd yno, a bydd croeso i ieuenctid yr Ofalaeth gyfan. Holwch y Gweinidog am fwy o fanylion am gost y cwrs a threfniadau teithio ac ati.